CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR A GYNHALIWYD
AR 27 MEDI 2017

Y Maer, y Cyng Alun Lenny, fu'n cadeirio cyfarfod misol Cyngor Tref Caerfyrddin a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr, Nos Fercher, 27ain o Fedi 2017 am 7.30 yh.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Julia Ault, Ken Lloyd, Phil Grice, Peter Hughes Griffiths, Gareth John, Alun Lenny, Arwel Lloyd, Miriam Moules, Jeff Thomas, Dr Baba Gana, Wyn Thomas, Barry Williams, Angharad Jones Leefe, Emlyn Schiavone and Revd Tom Defis.

195. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Dr Ioan Matthews, Danny Bartley a Dr Matthew Thomas

196. Datganiadau o Ddiddordeb

Datganodd y Cyng Alun Lenny ddiddordeb yn eitem yr Agenda 10a fel Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir.

Datganodd y Cyng Ken Lloyd ddiddordeb yn eitem 10a ar yr Agenda fel aelod o Bwyllgor Cynllunio y Cyngor Sir.

Datganodd y Cyng Arwel Lloyd ddiddordeb yn eitem 9 ar yr Agenda fel gweithiwr o PCYDDS.

Datganodd y Cyng Jeff Thomas ddiddordeb yn eitem 9 ar yr Agenda fel Cadeirydd Clwb Pêl-droed Caerfyrddin.

Datganodd y Cyng Angharad Jones Leefe ddiddordeb yn eitem yr Agenda 10c fel perchennog busnes ar Jackson's Lane.

197. Cwestiynau

Dim cwestiynau i'w hadrodd.

198. Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2017

Cynigiwyd gan y Cyng Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyng Wyn Thomas a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2017 fel rhai cywir.

199. Materion yn Codi

Ni chododd unrhyw faterion

200. Cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Medi 2017

Cynigiwyd gan y Cyng Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyng Phil Grice, a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 12 Medi 2017 fel rhai cywir.

201. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion eraill sy'n codi -

Tudalen 44: 170 - Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref Caerfyrddin 2016/17

Tudalen 44: 172 - Ymgynghori - Rhaglen Rheoli Ansawdd Aer Caerfyrddin

Tudalen 45: 173 - Polisi Defnydd Rhyngrwyd Cyngor Tref Caerfyrddin

Tudalen 45: 174 - Diogelwch Neuadd Ddinesig a Swyddfa San Pedr

Tudalen 45: 175 - Llifoeuadau – Parc Caerfyrddin

Tudalen 45: 176 - Cynorthwyydd y Felodrom

Cynigiwyd gan y Cyng Arwel Lloyd, eiliwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths, a **CHYTUNWYD** gan bawb a dderbyniwyd yr argymhellion.

202. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 14 Medi 2017

Cynigiwyd gan y Cyng Wyn Thomas, eiliwyd gan y Cyng. Emlyn Schiavone, a **PHENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 14 Medi 2017 fel rhai cywir.

203. Ystyried argymhellion y pwyllgor canlynol neu faterion eraill sy'n codi

Tudalen 49: 191 - Noson Gwobrau Busnes Tref Caerfyrddin
Cynigiwyd gan y Cyng. Phil Grice, eiliwyd gan y Cyng. Wyn Thomas a **PHENDERFYNWYD** y dylid rhoi nawdd o £1500

204. Adroddiad y Clerc

Ymgynghoriadau Statudol

(a) Cynllunio
W/36133 - Waun y Groes, Llysonnen Road, Llanllwch, Caerfyrddin. SA31 3RP Adeiladu Cartref Angladdau a Garej Cerbydau ar dir yn Waun y Groes. I gynnwys dymchwel yr adeilad allanol presennol.

W/36151 - 15 Y Clos Mawr, Caerfyrddin. SA31 1PR
Newid defnydd o A1 i ddefnydd cymysg o A1 ac A3 i Siop De Arbenigol a Rhoddion ar y llawr gwaelod a lefel islawr.

W/36152 - 20 Teras Picton, Caerfyrddin. SA31 3BX
Tynnu ffenestri diffygiol presennol, gwydr, drysau a'u cwmpasu ac yn gosod ffenestri, drysau pren caled newydd mewn lle i gyd-fynd â'r presennol.

W/36166 - 1 Hafod Cwnin, Caerfyrddin. SA31 2AU
Gosod estyniad croen sengl presennol a ddaeth yn anniogel

W/36167 - 95 Neuadd y Parc, Caerfyrddin. SA31 1HT
Adeiladu bae parcio o flaen y tŷ.

W/36196 - Plot gerllaw, 7 Heol y Cronlyn, Caerfyrddin, SA31 2ER.
Rhyddhau amod 12 a 13 W/27957

Doedd **DIM GWRTHWYNEBIADAU** i'r Ceisiadau Cynllunio.

b) Priffyrdd
Adroddodd y Clerc ar y Croesfan Zebra arfaethedig y tu allan i Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth, Heol Llansteffan, Tre Ioan, Caerfyrddin. Cynigiwyd gan y Cyng. Phil Grice, eiliwyd gan y Cyng. Parchg Tom Defis a CHYTUNWYD gan bawb gefnogi'r cais.

(c) Trwyddedu
Y Palm Caye, Gerddi Llydaw, ger Lôn Jackson, Caerfyrddin - Ar ôl trafodaeth hir fe gynigiwyd gan y Cyng. Gareth John, eiliwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths, a **CHYTUNWYD** gan bleidlais fwyafrifol nad oedd gwrthwynebiad i'r cais, ond mae'r Cyngor yn argymell y dylai unrhyw Gyflenwad o Alcohol neu Luniaeth Hwyr y Nos ei gyfyngu 00:00.

205. Adolygiad o'r Sector Cyngor Tref a Chymuned

NODWYD adroddiad y Clerc.

206. Adolygiad o Gyngor Tref Caerfyrddin

Cynigiwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng Jeff Thomas a **CHYTUNWYD** gan bawb bod y Cyngor yn mabwysiadu'r strategaeth a chynllun arfaethedig.

207. Aelodau Mân Awdurdod - Ysgol Myrddin

Cynigiwyd gan y Cyng Peter Hughes Griffith, eiliwyd gan y Cyng Emlyn Schiavone a **CHYTUNWYD** gan bleidlais fwyafrifol y dylid enwebu'r Cyng Miriam Moules.

208. Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru 30 Medi 2017

NODWYD adroddiad y Clerc.

209. Archwiliad Blynyddol 2016/17

NODWYD adroddiad y Clerc.

210. Diweddariad Prosiect y Felodrom

NODWYD adroddiad y Clerc.

211. Age Cymru – 'Round Table' ar Unigrwydd

NODWYD adroddiad y Clerc.

212. Cyfeillion Eglwys Sant Pedr

NODWYD adroddiad y Clerc.

213. Adroddiad y Maer

Rhannodd y Maer, y Cyng Alun Lenny, ei adroddiad a thynnodd sylw at lwyddiant y penwythnos y Siryfion NACTSEW y penwythnos blaenorol. Cododd y Cyng. Y Parchg Tom Defis mater y faner ar gyfer Diwrnod Heddwch Cenedlaethol y Cenhedloedd Unedig a godir fel marc o gefnogaeth i fyd di-drais. Cynigiodd y Cyng Parchg Tom Defis y dylai'r faner barhau tu allan am fis fel nod o'n cefnogaeth. Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cyng Peter Hughes Griffiths a **CHYTUNWYD** gan bawb.

214. Adroddiadau gan Gynghorwyr fel Cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrff allanol

Adroddodd y Cyng Emlyn Schiavone fod Tŷ Ni a Tŷ Hapus wedi penodi rheolwr newydd yn ddiweddar. Adroddodd y Cyng. Schiavone hefyd am ymweliad â'r Clwb Rheilffordd lle'r oedd 16 o ddynion wedi eillio eu pennau i godi arian i elusen cancr Macmillan.

Diolchodd y Cyng Phil Grice, Siryf y Dref, i'r cyngor a'r staff am eu cefnogaeth a'u gwaith caled mewn perthynas â phenwythnos NACTSEW.

Adroddodd y Cyng Ken Lloyd ar wasanaeth coffa Brwydr Prydain yn ddiweddar.

Rhoddodd y Cyng Jeff Thomas drosolwg o'r gwaith diweddar a wnaed gan Glwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin.

215. Gwahardd y Cyhoedd a'r Wasg

Heb ei gynnig.

216. Materion yn Codi

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:50